# CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN: GOGLEDD CYMRU
# CAM 2 – NODIADAU CANLLAW

- THIS DOCUMENT IS ALSO AVAILABLE IN ENGLISH -

Mae Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gogledd Cymru yn cael ei gyllido gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Cyngor Gwynedd yw corff arweiniol Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gogledd Cymru ar ran awdurdodau lleol y rhanbarth.

Am fwy o wybodaeth ewch i www.FfyniantGyffredinGogledd.cymru neu cysylltwch FfyniantGyffredinGogleddCymru@gwynedd.llyw.cymru.

**Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i bob ymgeisydd sydd wedi'i wahodd i gyflwyno cais prosiect manwl Cam 2.** Dylai ymgeiswyr ddarllen y canllaw hwn cyn llenwi ffurflen gais Cam 2.

| **Cam 2 – Ffurflen Gais** |
|---|
| Dangosir cyfrif geiriau ar gyfer rhai cwestiynau. Rydym yn annog ymgeiswyr i gadw at y rhain lle bo modd ac i ateb y cwestiynau yn gryno. |

| **Gwybodaeth am yr Ymgeisydd** | |
|---|---|
| **Enw Sefydliad Arweiniol** | Rhowch enw'r sefydliad sy'n ymgeisio. Yn achos ceisiadau ar y cyd, gyda mwy nag un sefydliad, rhowch fanylion y sefydliad arweiniol. |
| **Uwch Swyddog Cyfrifol** | Rhowch enw'r person sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am y prosiect ac sydd â'r awdurdod i arwyddo'r cais a dogfennau perthnasol eraill gyda'r sefydliad. |
| Rhif ffôn cyswllt | Rhowch rif ffôn noddwr y prosiect/arweinydd cyswllt. |
| Cyfeiriad e-bost | Rhowch gyfeiriad e-bost noddwr y prosiect/arweinydd cyswllt. |
| **Rheolwr Prosiect** | Rhowch enw'r person sydd â chyfrifoldeb o ddydd i ddydd am y prosiect a gallwn gysylltu yn ystod proses Cam 2. |
| Swydd yn y sefydliad | Rhowch swydd y rheolwr prosiect. |
| Rhif ffôn cyswllt | Rhowch rif ffôn noddwr y rheolwr prosiect. |
| Cyfeiriad e-bost | Rhowch gyfeiriad e-bost noddwr y rheolwr prosiect. |
| **Math o sefydliad** | Dewiswch math categori eich sefydliad. |
| **Ymgeiswyr Preifat a Gwirfoddol** | • Dwy set ddiweddaraf o gyfrifon wedi'u harchwilio,<br>• Cyfansoddiad sefydliad neu ddogfennau llywodraethu tebyg,<br>• Datganiad banc diweddaraf (o fewn 3 mis). |
| **Rhif cofrestru Cwmni/Rhif Elusen** | Rhowch rif cofrestru neu cofrestr elusen eich cwmni. |
| **Rhif cofrestru TAW** | Rhowch eich rhif cofrestru TAW neu gadarnhau nad yw wedi cofrestru ar gyfer TAW. Cadarnhewch hefyd a oes unrhyw elfen o wariant sy'n dwyn unrhyw TAW anadferadwy. |

| | |
|---|---|
| **Cadarnhewch eich bod yn fodlon i wiriad credyd gael ei gynnal.** | Cadarnhewch eich bod yn hapus i aseswyr gynnal gwiriad credyd ariannol i asesu sefyllfa ariannol yr ymgeisydd. Dylech nodi y bydd hyn yn gadael ôl troed feddal ar eich ffeil credyd. |

| **Rhan 1 – Manylion Prosiect** | |
|---|---|
| **[1a] Enw'r Prosiect** | Rhowch enw'r prosiect. Dyma'r enw a ddefnyddir ar gyfer unrhyw gyfeiriad gan UKSPF yn y dyfodol, gan gynnwys gweithgareddau hyrwyddo. |
| **[1b] Rhif Cyfeirnod y prosiect** | Nodwch rif cyfeirnod y prosiect. Cyhoeddwyd hyn gyda'ch gwahoddiad i gyflwyno ffurflen gais Cam 2.<br>Mae angen datgan y rhif yma ar phob ddogfen sydd yn cael ei gyflwyno fel rhan o'ch cais Gwedd 2. |
| **[1c] Partneriaid y Prosiect** | Os yw eich prosiect yn un ar y cyd efo eraill, rhestrwch yr holl sefydliadau sy'n bartneriaid yn y prosiect ac esbonio'n glir beth fydd eu rolau a'u cyfrifoldebau yn y prosiect. |
| Cwblhewch **Atodiad A - Ffurflen Cefnogi Bid ar y Cyd** ar gyfer pob partner sy'n ymwneud â'r prosiect. Rhaid i'r ymgeisydd arweiniol a phob sefydliad sy'n bartner yn y prosiect gwblhau Atodiad A a'i gyflwyno gyda ffurflen gais Cam 2. | |
| **[1ch] Rhowch ddisgrifiad manwl o'r gweithgareddau a'r gwasanaethau arfaethedig.** | Rhowch ddisgrifiad manwl o'r gweithgareddau a'r gwasanaethau arfaethedig. Dylai'r ymateb ymdrin â'r pwyntiau canlynol:<br>***beth*** y bwriadwch gyflwyno<br>***beth*** mae'r prosiect yn ceisio ei gyflawni<br>***sut*** y cyflwynir y gweithgareddau i ateb yr ymyriad<br>***pwy*** fydd yn cyflwyno'r gweithgareddau<br>***pwy*** fydd yn elwa<br>***lle*** bydd y cyflwyno'n digwydd.<br>(Dim mwy na 1500 gair i'r 6 pennawd) |
| **[1d] Lle o fewn Gogledd Cymru fydd y prosiect yn cael ei gyflwyno?** | Rhowch gyfeiriad a chod post cyflwyno'r prosiect. Os yw'r prosiect yn ymestyn dros ardal mwy nag un cod post, rhowch y 4 digidau holl godau post cyflwyno'r prosiect. |

| **Rhan 2 – Effaith y Prosiect** | |
|---|---|
| **[2a] Pa grwpiau buddiolwyr fydd y prosiect yn ceisio cefnogi?** | Disgrifiwch mewn 500 gair neu lai. Byddwch mor gryno ag sydd modd. Dywedwch pwy all elwa o'r prosiect. Gall hyn gynnwys rhai mewn lleoliad daearyddol penodol neu buddiolwyr o grwpiau targed penodol. Ni ddylai'r prosiect fod er lles y sefydliad sy'n ymgeisio yn unig. Rhaid i'r prosiect ddangos lles ehangach i drigolion, busnesau, cymunedau y sir neu ogledd Cymru, a'r amgylchedd/parth cyhoeddus. |
| **[2b ] Beth fydd y prosiect yn ceisio ei gyflawni?**<br>Ystyriwch fanteision tymor byr a thymor hwy y prosiect, mewn perthynas â'r | Disgrifiwch mewn 500 gair neu lai. Byddwch mor gryno ag sydd modd.<br>Gosodwch allan y manteision tymor-byr a rhai tymor hwy a ragwelir ddaw o'r prosiect. Esboniwch sut y caiff y prosiect |

| | |
|---|---|
| grwpiau buddiolwyr a'r gymuned ehangach. | effaith llesol ar y buddiolwyr a chymuned ehangach y sir neu ranbarth gogledd Cymru. |
| **[2c] Sut caiff yr effeithiau (cadarnhaol a negyddol) a'r manteision eu mesur a'u hasesu?** | Disgrifiwch mewn 500 gair neu lai. Byddwch mor gryno ag sydd modd. Esboniwch sut y gallwch asesu effeithiau cadarnhaol a negyddol y prosiect. Pa fecanweithiau fydd gennych i'ch galluogi i fesur yr effeithiau hyn? |

| **Rhan – Ariannol** | |
|---|---|
| **[3a] Cadarnhewch na werir unrhyw arian ar eitemau na gweithgareddau sydd wedi eu heithrio o gefnogaeth UKSPF, fel sydd wedi ei osod allan yn 7.5.1 prosbectws UKSPF** | Cadarnhewch na werir unrhyw arian o'r gronfa ar eitemau neu weithgareddau sydd wedi eu heithrio o gefnogaeth UKSPF, fel sydd wedi ei osod allan yn 7.5.1 prosbectws UKSPF:<br>• talu am lobïo, gwesteia, deisebu neu herio penderfyniadau, sy'n golygu defnyddio'r Gronfa i lobïo (trwy gwmni allanol neu staff mewnol) er mwyn cynnal gweithgareddau a fwriadwyd i ddylanwadu neu geisio dylanwadu ar y Senedd, llywodraeth neu weithgaredd gwleidyddol gan gynnwys derbyn cyllid UKSPF; neu geisio dylanwadu ar gamau deddfwriaethol neu reolaethol<br>• taliadau am weithgareddau pleidiol gwleidyddol neu sydd o natur hollol grefyddol<br>• TAW adferadwy gan CThEF<br>• rhoddion, neu daliadau am roddion neu gyfraniadau fel rhodd<br>• dirwyon statudol, dirwyon troseddol neu gosbau<br>• taliadau am waith neu weithgareddau y mae gan yr awdurdod lleol arweiniol, cyflwynydd y prosiect, buddiolwr yn y pen draw, neu unrhyw aelod o'u partneriaeth ddyletswydd statudol i'w wneud, neu a gyllidir yn gyfan gwbl o ffynonellau eraill<br>• arian wrth gefn ac atebolrwydd wrth gefn<br>• difidendau<br>• drwg-ddyledion, costau yn deillio o ohirio taliadau i gredydwyr, neu ddirwyn cwmni i ben<br>• treuliau yng nghyswllt cyfreithia, diswyddo annheg neu iawndal arall<br>• costau a ddaeth i ran unigolion wrth sefydlu a chyfrannu at gynlluniau pensiwn preifat |
| **[3b] A yw'r pecyn cyllido yn cynnwys unrhyw gyllid cyfatebol?** | Cadarnhewch a fydd unrhyw gyllid cyfatebol yn cael ei ddarparu. Rhaid hefyd sicrhau cadarnhad yn ysgrifenedig o'r cyllidwr cyfatebol yn datgan y swm, unrhyw derfynau amser, a disgrifiad o'r hyn y gellir gwario'r cyllid arno. |
| Os sicrhawyd y cyllid cyfatebol, rhowch lythyrau cadarnhau gyda'ch cais. | |
| **[3c] Disgrifiwch sut yr amcangyfrifwyd y gyllideb gyffredinol, beth a wnaed i roi prawf i weld a yw'n gywir, a sut y** | Esboniwch sut y gweithiwyd allan gyllideb y prosiect. Gallai hyn gynnwys darparu amcan brisiau gan ddarparwyr ac amcangyfrifon neu samplau o gostau o brosiectau cyffelyb |

| | |
|---|---|
| **byddid yn rheoli unrhyw gostau neu gynnydd annisgwyl mewn prisiau?** | a gyflwynwyd. Pa gamau a gymerwyd gennych i sicrhau bod y gyllideb yn gywir a realistig o ran yr hyn sydd i'w gyflwyno? Disgrifiwch sut y byddwch yn rheoli unrhyw gostau annisgwyl neu gynnydd mewn prisiau. Pa fesurau a rowch ar waith i ymateb i newidiadau sylweddol? |
| **[3ch] Nodwch sut y byddwch yn cael gwerth am arian trwy gyflwyno'r prosiect hwn.** | Esboniwch sut y byddwch yn sicrhau bod y prosiect yn rhoi gwerth am arian. Sut y gwnewch leihau costau a cheisio cael yr effaith a'r budd mwyaf ar yr un pryd? |
| **[3d] A yw eich prosiect yn cynnwys costau staff?** | Bydd angen i chi ddyrannu gwariant yn erbyn rheolwyr staff a chostau cyflenwi staff ar wahân yn Atodiad B, ond yn dangos yn glir sut maen nhw'n ffitio yn y prosiect a'u gradd cyflog. |
| Os oes, darparwch siart sefydliad a chopïau o ddisgrifiadau swydd. Bydd angen i chi ddyrannu gwariant yn erbyn costau rheoli staff a chyflenwi staff ar wahân yn Atodiad B. | |

| **Rhan 4 – PROSIECTAU CYFALAF YN UNIG** | |
|---|---|
| **[4a] Ai chi yw perchennog yr eiddo?** | Gwnewch un o'r dewisiadau i gadarnhau ai perchennog yr eiddo ydych ynteu a yw'r eiddo ar brydles. |
| **Os Lesddaliwr, nodwch dymor y brydles.** | Os ar brydles, rhowch fanylion tymor y brydles. Dyle tymor y brydles fod o leiaf tan Mawrth 2035. |
| **A oes gennych ganiatâd y landlord ar gyfer y gwaith cyfalaf?** | Cadarnhewch a oes gennych ganiatâd y landlord i wneud y gwaith cyfalaf. |
| Os oes, darparwch dystiolaeth o'r caniatâd. | |
| **[4b] A oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer eich prosiect?** | Cadarnhewch os oes angen caniatâd cynllunio ai peidio. |
| **Os oes, beth yw statws y caniatâd cynllunio?** | Os oes, cadarnhewch statws y caniatâd. |
| **Os yn aros, nodwch pryd y disgwylir y penderfyniad cynllunio.** | Os yn aros, nodwch pryd y disgwylir y penderfyniad cynllunio. |
| Os caiff ei gymeradwyo, rhowch gopi o'r hysbysiad penderfynu cynllunio. | |
| **[4c] A oes angen unrhyw ganiatâd statudol arall arnoch?** | Cadarnhewch os oes angen unrhyw ganiatâd statudol arall ai peidio. |
| **Os oes, cadarnhewch y caniatâd sydd ei angen a'i statws.** | Os oes, cadarnhewch y caniatâd sydd ei angen a'i statws. |
| Rhowch gopi o'r holl gydsyniadau statudol sydd wedi'u cymeradwyo hyd yma. | |

| **Rhan 5 – Caffael**<br>Mae gofyn i chi ddarparu gwybodaeth fanwl am gaffael yn Atodiad B. | |
|---|---|
| **[5a] Cadarnhewch bydd y llwybr caffael a wneir yn bodloni Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU: Caffel, Rheoliadau Contract Cyhoeddus 2015 a gwelliannau 2020.** | Os yw'n berthnasol, cadarnhewch y bydd y llwybr caffael a wneir yn bodloni'r rheoliadau. Gweler y dolenni am arweiniad:<br>Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU: Caffel, Rheoliadau Contract Cyhoeddus 2015 (Saesneg yn unig) a gwelliannau 2020 (Saesneg yn unig) |

| **Rhan 6 – Rheoli'r Prosiect**<br>Cyfyngwch eich atebion i bob cwestiwn i 750 gair neu lai. Byddwch mor gryno ag sydd modd. | |
|---|---|
| **[6a] Disgrifiwch sut y byddwch yn llwyddo i reoli'r prosiect i sicrhau bod amserlenni a gwariant cyflenwi yn parhau ar y trywydd iawn ac i gyflawni Cerrig Filltir Allweddol y cytunwyd arnynt.** | Disgrifiwch y prosesau y byddwch yn eu rhoi ar waith i fonitro ac olrhain perfformiad y prosiect a chynnydd y prosiect. |
| **[6b] Disgrifiwch y systemau a'r prosesau monitro ariannol a pherfformiad a fydd yn cael eu defnyddio i gofnodi gwariant y prosiect yn gadarn ac i dystiolaethu allbynnau a chanlyniadau. Sut fyddwch chi'n sicrhau bod y cyllid ond yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau prosiect UKSPF?** | Disgrifiwch y systemau cyfrifo y byddwch yn eu defnyddio i gofnodi gwariant y prosiect yn gadarn a sicrhau y gwerir arian y gronfa yn unig ar weithgareddau prosiectau UKSPF, e.e., systemau cyfrifo ar wahân. Disgrifiwch y systemau monitro perfformiad a ddefnyddir i fesur a rhoi tystiolaeth am allbynnau a deilliannau. |
| **[6c] Disgrifiwch pa weithdrefnau llywodraethu a sicrwydd a fydd yn cael eu rhoi ar waith i reoli'r prosiect ac i atal a lliniaru twyll neu gamddefnyddio'r cyllid.** | Disgrifiwch pa weithdrefnau llywodraethu a sicrwydd fydd ar waith i reoli'r prosiect. Pa strwythurau fydd ar waith, e.e., grŵp llywio'r prosiect? Sut bydd uwch-swyddogion, bwrdd cyfarwyddwyr, pwyllgorau rheoli etc. yn rhan o oruchwylio'r prosiect a dylanwadu arno? Disgrifiwch sut y byddwch yn atal a lliniaru twyll neu gamddefnydd o'r arian. |
| **[6ch] Os yw hwn yn brosiect aml-bartner, sut bydd y bartneriaeth yn cael ei rheoli'n effeithiol?** | Disgrifiwch sut y byddwch yn rheoli prosiect sydd â nifer o bartneriaid. Sut y byddwch yn cydgordio cyflwyno'r prosiect? Sut y gwnewch yn siŵr fod pob partner yn cydymffurfio a gofynion cyllido UKSPF? |
| **[6d] Cadarnhewch fod gwiriadau priodol wedi'u cynnal i sicrhau bod yr holl sefydliadau partner yn briodol ac yn brofiadol, yn ariannol gadarn a bod ganddynt y strwythurau a'r gweithdrefnau angenrheidiol yn eu lle i dderbyn cyllid UKSPF.** | Cadarnhewch trwy ddefnyddio'r blwch ticio. |
| **[6dd] Disgrifiwch y diwydrwydd dyladwy a wnaed ar sefydliadau partner.** | Bydd awdurdodau lleol unigol yn cynnal diwydrwydd dyladwy ar y sefydliad ymgeisio arweiniol. Cyfrifoldeb y sefydliad arweiniol, serch hynny, yw cynnal gwiriadau tebyg ar sefydliadau sy'n bartneriaid er mwyn sicrhau eu bod yn ariannol gadarn, fod ganddynt drefniadau llywodraethu cadarn a gweithdrefnau rhedeg ar waith, a bod ganddynt yr adnoddau a'r arbenigedd angenrheidiol i gyflwyno prosiectau o'r maint hwn a rheoli cronfeydd fel hyn. |

| **Rhan 7 – Gwerthuso**<br>Cyfyngwch eich atebion i bob cwestiwn i 500 gair neu lai. Byddwch mor gryno ag sydd modd. | |
|---|---|
| **[7a] Mae'n bwysig fod prosiectau yn cael eu gwerthuso'n gadarn, a bod gwersi yn cael eu rhannu gydag eraill.** | Amlinellwch eich agwedd at werthuso'r prosiect, gan gynnwys:<br>• Disgrifiwch sut y byddwch yn monitro perfformiad y prosiect.<br>• Disgrifiwch sut y caiff y prosiect ei werthuso, o ran sut y cafodd ei gyflwyno a'i effaith ar gleientiaid.<br>• Disgrifiwch sut y dosberthir canfyddiadau'r gwerthuso. Â phwy y byddwch yn rhannu'r canlyniadau?<br>• Dywedwch pryd y cynhelir y gwerthuso. Rhowch ddyddiadau cychwyn a gorffen.<br>• Disgwylir i gost yr adroddiad gwerthuso fod rhwng 1 – 2% o gyllid<br>Bydd angen i unrhyw waith monitro a gwerthuso y telir amdano gan UKSPF gael ei gwblhau erbyn 31 Rhagfyr 2024. Mae canllawiau pellach ar gael yma: [Monitro a Gwerthuso] |
| **[7b] A fyddwch cystal â chadarnhau y byddwch yn cadw'r holl ddata perthnasol am eich prosiect, gan gynnwys data am y sawl a elwodd, a darparu hwn i Gyngor Gwynedd neu ei bartneriaid pan wneir cais, at ddibenion monitro neu werthuso. A wnewch gadarnhau hefyd y byddwch yn cadw pob dogfen sy'n ymwneud â'r prosiect am gyfnod o 10 mlynedd yn dilyn y taliad grant olaf.** | Cadarnhewch trwy ddefnyddio'r blwch ticio y bydd angen cadw pob tystiolaeth ategu megis cofnodion y sawl sy'n elwa, ffotograffau cyn ac ar ôl, dogfennaeth ariannol ayb am gyfnod o 10 mlynedd wedi taliad olaf o'r grant |

| **Rhan 8 – Strategaeth Gadael**<br>Ar hyn o bryd mae Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yng Ngogledd Cymru yn gweithredu hyd at 31 Rhagfyr 2024. | |
|---|---|
| Cyfyngwch eich atebion i bob cwestiwn i 500 gair neu lai. Byddwch mor gryno ag sydd modd. | |
| **[8a] Os ydych chi'n bwriadu parhau i gyflwyno gweithgareddau y tu hwnt i 31 Rhagfyr 2024, dywedwch wrthym sut y bydd hyn yn cael ei ariannu a pha weithgareddau sy'n debygol o barhau i barhau** | Os bydd y prosiect yn parhau y tu hwnt i 31 Rhagfyr 2024, esboniwch sut y gwneir hyn. Cyfeiriwch at unrhyw gyllid yn y dyfodol, unrhyw newidiadau i sefydliadau cyflwyno, elfennau'r prosiect fydd yn parhau neu'n dod i ben, etc. |
| **[8b] Ydych chi'n bwriadu rhoi'r gorau i weithgareddau cyn 31 Rhagfyr 2024, ac os felly, pa strategaeth gadael fydd gennych?** | Os bydd y prosiect yn gorffen erbyn 31 Rhagfyr 2024, esboniwch sut y cynhelir unrhyw fuddion ac effeithiau. A fydd unrhyw brosiectau amgen yn cael eu gweithredu i ddal ymlaen â natur y gwaith a wnaed? |

| Rhan 9 – Rheoli Cymorthdaliadau | |
|---|---|
| Rhaid i bob ymgeisydd ganfod a allai dyfarnu arian UKPSF yn uniongyrchol fod yn gyfystyr â chymhorthdal.<br>Os yw’r ymgeisydd yn darparu cymhorthdal i eraill, rhaid i bob cais hefyd ystyried sut y byddant yn cyflawni yn unol â rheoli cymorthdaliadau yn unol â chanllawiau Llywodraeth y DU: [Cyfundrefn Rheoli Cymorthdaliadau DU (Saesneg yn unig)]<br>Mae canllawiau pellach am reoli cymorthdaliadau ar gael yma: [Rheoli Cymorthdaliadau - Llyw.Cymru] | |
| **[9a] A yw dyfarnu arian UKSPF i'ch sefydliad ar gyfer y prosiect yn cynnwys darparu cymorthdaliadau?** | Cadarnhewch a yw dyfarnu UKSPF yn cael ei gategoreiddio fel cymhorthdal i’ch prosiect.<br>Rhaid i bob prosiect ystyried sut y byddant yn cyflwyno yn unol â chanllawiau Llywodraeth y DU. |
| **[9b] A fyddwch yn darparu cymhorthdal (e.e. grant) i drydydd partïon neu buddiolwyr?** | Cadarnhewch a fydd unrhyw arian UKSPF y byddwch yn ei ddosbarthu i sefydliadau trydydd parti neu fuddiolwyr yn cael ei alw’n gymhorthdal. |
| **[9c] Os ateboch yn gadarnhaol i’r naill neu’r llall uchod, eglurwch sut mae’r cymorthdaliadau yn cydymffurfio â threfn rheoli cymorthdaliadau’r DU fel y nodir yn y canllawiau.** | Cyfeiriwch at y canllawiau ac eglurwch sut mae’r cymorthdaliadau yn cydymffurfio â threfn rheoli cymorthdaliadau’r DU. Os yw’n berthnasol, cwblhewch hefyd Ymateb Rheoli Cymhorthdal Atodiad C. |
| Cwblhewch a darparwch gopi o **Atodiad C – Ffurflen Rheoli Cymorthdaliadau.** | |
| **[9ch] Disgrifiwch y gweithdrefnau fydd ar waith i adrodd am a monitro unrhyw gymorthdaliadau a ddarperir gan y prosiect.** | Esboniwch sut y byddwch yn monitro gweithgareddau i adnabod unrhyw gymorthdaliadau a sut y byddwch yn adrodd am hyn. |

| Rhan 10 - Yr Iaith Gymraeg | |
|---|---|
| **[10a] A oes gennych Bolisi Iaith Gymraeg?** | Cadarnhewch os oes gennych bolisi iaith Gymraeg. |
| Os oes, disgrifiwch sut y bydd y polisi'n cael ei gymhwyso i'r prosiect hwn. | Os oes, disgrifiwch sut bydd y polisi yn cael ei gymhwyso i’r prosiect. |
| Darparwch gopi o'ch Polisi Iaith Gymraeg. | |
| **[10b] A fydd eich prosiect yn cael ei gyflwyno yn y Gymraeg a’r Saesneg?** | Cadarnhewch os fydd eich prosiect yn cael ei gyflwyno yn y Gymraeg a’r Saesneg. |
| Os bydd, disgrifiwch ac eglurwch y gweithgaredd ar y prosiect a'r effaith ar y Gymraeg a pha weithdrefnau sydd yn eu lle i fonitro ac adrodd ar hyn. | Os bydd, disgrifiwch ac eglurwch y gweithgaredd ar y prosiect a'r effaith ar y Gymraeg a pha weithdrefnau sydd yn eu lle i fonitro ac adrodd ar hyn. |

| Rhan 11 – Sero Net | |
|---|---|
| **[11a] Disgrifiwch ac eglurwch unrhyw weithgaredd ar y prosiect a fydd yn cefnogi polisi Sero Net Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru neu uchelgeisiau amgylcheddol ehangach. Hefyd, pa weithdrefnau sydd yn eu lle i fonitro ac adrodd ar hyn?** | Disgrifiwch ac eglurwch unrhyw weithgaredd ar y prosiect a fydd yn cefnogi polisi Sero Net Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru neu uchelgeisiau amgylcheddol ehangach. Hefyd, pa weithdrefnau sydd yn eu lle i fonitro ac adrodd ar hyn?<br>Argymhellir cwblhau asesiad effaith. |

| Rhan 12 – Cydraddoldeb | |
|---|---|
| **[12a] A oes gan eich sefydliad bolisi ysgrifenedig sy'n atal gwahaniaethu anghyfreithlon ac sy’n hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb?** | Cadarnhewch os oes gan eich sefydliad bolisi ysgrifenedig sy'n atal gwahaniaethu anghyfreithlon ac sy’n hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb. |
| Os oes, disgrifiwch sut mae staff yn cael gwybod am y polisi. E.e., staff yn cael eu hyfforddi’n rheolaidd, yn ystod y cyfnod sefydlu. | Os oes, disgrifiwch sut mae staff yn cael gwybod am y polisi. E.e., staff yn cael eu hyfforddi’n rheolaidd, yn ystod y cyfnod sefydlu. |
| Darparwch gopi o'ch Polisi Cydraddoldeb. | |
| **[12b] Disgrifiwch ac eglurwch unrhyw weithgaredd ar y prosiect a fydd yn annog cydraddoldeb yn erbyn unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig a pha weithdrefnau sydd yn eu lle i fonitro ac adrodd ar hyn.** | Disgrifiwch ac eglurwch unrhyw weithgaredd ar y prosiect a fydd yn annog cydraddoldeb yn erbyn unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig a pha weithdrefnau sydd yn eu lle i fonitro ac adrodd ar hyn. |
| Os yw'n berthnasol, darparwch gopi o'ch Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y prosiect hwn. | |

| Rhan 13 – Yswiriant | |
|---|---|
| **[13a] Cadarnhewch a oes gennych eisoes neu a allwch ymrwymo i gael y lefelau priodol o yswiriant.** | Cadarnhewch a oes gennych neu a fydd gennych lefelau priodol o yswiriant. Mae’n bwysig cael y lefelau priodol o yswiriant i liniaru risg y gweithgareddau. |
| Darparwch gopi o bob Tystysgrif Yswiriant. | |

| Rhan 14 – Brandio a Chyhoeddusrwydd | |
|---|---|
| **[14a] Cadarnhewch eich bod wedi darllen ac y byddwch yn cydymffurfio â phob agwedd o ofynion brandio a chyhoeddusrwydd y Gronfa.** | • Rhaid i ymgeiswyr ddarllen y gofynion brandio a chyhoeddusrwydd a chadarnhau y byddant yn cydymffurfio. Brandio a Chyhoeddusrwydd<br>• Bydd angen i sefydliadau sy’n derbyn arian UKSPF gydnabod cyfraniad Llywodraeth y DU a hefyd y gefnogaeth a ddarparwyd gan yr awdurdod(au) lleol perthnasol.<br>• Dylid defnyddio'r geiriad canlynol ar bob deunydd cyhoeddusrwydd. ‘Mae'r prosiect/enw'r prosiect] wedi cael £[MEWNOSOD SWM] gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant a Rennir y DU’. |

| Rhan 15 – Diogelu Data | |
|---|---|
| **[15] Datganiad Diogelu Data** | Darllenwch sut byd Cyngor Gwynedd yn delio â’ch data. |

| Rhan 16 – Datganiad gan Ymgeisydd y Prosiect | |
|---|---|
| **[16] Datganiad yr Ymgeisydd** | Rhaid i ymgeiswyr lofnodi a dyddio’r cais a nodi eu statws o fewn y sefydliad. Uwch-Berchennog Cyfrifol y prosiect ddylai hwn fod. |

Dylai ymgeiswyr hefyd gwblhau:

- Atodiad A – Ffurflen Cefnogi Bid ar y cyd (os yn berthnasol)
- Atodiad B – Gwybodaeth Prosiect (gorfodol)
- Atodiad C – Ffurflen Rheoli Cymorthdaliadau (gorfodol)

| **Atodiad A – Ffurflen Cefnogi Bid ar y cyd** |
|---|
| Gwnewch yn siŵr fod ffurflen ar wahân yn cael ei llenwi a'i llofnodi gan bob sefydliad sy'n bartner a grybwyllir yn y cais.<br>Mae gofyn i sefydliadau sy'n bartneriaid esbonio pa rôl fydd ganddynt yn y prosiect – er enghraifft, rheoli prosiect, cyflwyno gweithgareddau penodol, darparu cyllid cyfatebol, cynnig adnoddau (staff, llety, arbenigedd proffesiynol, etc.) |

| **Atodiad B – Gwybodaeth am y Prosiect** | |
|---|---|
| Tab Crynodeb o'r Prosiect | Rhowch enw'r ymgeisydd arweiniol<br>Enw'r prosiect<br>Enwau partneriaid (os yn gymwys)<br>Dyddiad Cychwyn a Dyddiad Gorffen<br>Bydd pob data arall yn poblogi'n awtomatig unwaith i chi gwblhau'r holl dabiau isod. |
| Tab Cynllun Gweithredu | Ar gyfer pob carreg filltir, cynhwyswch y tasgau penodol, pwy fydd yn gyfrifol am y tasgau hyn (perchennog), dyddiadau dechrau a gorffen ac yna plotiwch y misoedd pan fydd y tasgau hyn yn digwydd. |
| Tab Ymyriadau SPF | Rhowch Enw'r Awdurdod ac Enw'r Prosiect.<br>Nodwch yr holl ymyriadau perthnasol y bydd y prosiect yn ymdrin â hwy o'r ddewislen gwymp.<br>Bydd gofyn i ymgeiswyr neilltuo allbynnau, deilliannau, a gwariant yn y tabiau eraill yn erbyn yr ymyriadau hyn a ddetholwyd. |
| Tab Allbynnau SPF | Llenwch y tabl gan nodi'r allbynnau yr ydych yn ceisio eu cael o ganlyniad i'r prosiect.<br>**Ymyriad SPF -** Nodwch pa ymyriad SPF y mae a wnelo'r allbynnu yr ydych yn eu hawlio ag ef.<br>Os yw allbwn yn berthnasol i fwy nag un ymyriad, dewiswch ymyriad blaenoriaeth at y diben hwn, neu neilltuo'r allbynnau yn erbyn pob ymyriad y mae a wnelont â hwy.<br>**Disgrifiad Dangosydd Allbwn -** Nodwch pa ddangosyddion allbwn y bydd eich prosiect yn gyrraedd o'r ddewislen gwymp.<br>***Dim ond allbynnau sydd wedi eu cynnwys yn nogfen CFfG Llywodraeth y DU y gallwch ddewis. Ni allwch greu eich dangosyddion eich hun.***<br>**Target Allbwn -** Rhowch werth yr allbynnau i'w cyrraedd yn erbyn ardal pob sir. |

| | |
|---|---|
| | Mae gofyn i brosiectau gan nifer o awdurdodau lleol roi dadansoddiad o dargedau nifer yr allbynnau a gyrhaeddir ym mhob sir lle bydd y prosiect yn gweithredu.<br><br>**Cyfanswm -** Bydd y cyfanswm hwn yn gweithio allan yn awtomatig ar sail y gwerthoedd targed a roddwyd yn erbyn ardaloedd perthnasol y sir.<br><br>**Uned Mesur -** Bydd hyn yn poblogi'n awtomatig.<br><br>**Tystiolaeth -** Rhestrwch y math o dystiolaeth y byddwch yn gasglu i gefnogi'r holl allbynnau a restrwyd gennych.<br><br>**Rhesymeg -** Esboniwch sut yr amcangyfrifwyd yr allbynnau hyn. |
| Tab Canlyniadau SPF | Cwblhewch y tabl gan nodi'r canlyniadau yr ydych yn ceisio eu cyflawni o ganlyniad i'r prosiect.<br><br>**Ymyrraeth SPF** - Nodwch pa ymyriad SPF y mae'r canlyniad rydych yn ei hawlio yn ymwneud ag ef.<br><br>Os yw canlyniad yn berthnasol i fwy nag un ymyriad, dewiswch ymyriad â blaenoriaeth at y diben hwn, neu dosrannwch yr allbwn yn erbyn pob ymyriad y maent yn ymwneud ag ef.<br><br>**Disgrifiad Dangosydd Canlyniad** - Nodwch pa ddangosyddion canlyniad y bydd eich prosiect yn eu cyflawni o'r ddewis.<br><br>Dim ond canlyniadau sydd wedi'u cynnwys yn nogfen SPF Llywodraeth y DU y byddwch yn gallu eu dewis. Ni allwch creu eich dangosyddion eich hun.<br><br>**Targed Canlyniad** - Nodwch werth y canlyniadau i'w cyflawni yn erbyn pob ardal sirol. Mae'n ofynnol i brosiectau aml-awdurdod lleol ddarparu dadansoddiad o'r nifer targed o ganlyniadau a gyflawnir ym mhob sir lle bydd y prosiect yn gweithredu.<br><br>**Cyfanswm** - Bydd y cyfanswm hwn yn cael ei gyfrifo'n awtomatig yn seiliedig ar y gwerthoedd targed a gofnodwyd yn erbyn yr ardaloedd awdurdod perthnasol.<br><br>**Uned Fesur** - Bydd hwn yn llenwi'n awtomatig.<br><br>**Tystiolaeth** - Rhestrwch y math o dystiolaeth y byddwch yn ei chasglu i gefnogi'r holl ganlyniadau rydych wedi'u rhestru.<br><br>**Rhesymeg** - Eglurwch sut yr amcangyfrifwyd y canlyniadau.<br><br>Sicrhewch fod y canlyniadau a ddewiswyd yn adlewyrchu gweithgareddau'r prosiect. |
| Tab Proffil Cyllido | Llenwch y tabl. Rhowch ffynhonnell yr holl gyllid ar gyfer eich prosiect gan gynnwys y cyllid cyfatebol a ddefnyddir fel cyfraniad i'r prosiect. Dim ond cyllid cyfatebol mewn arian a dderbynnir; ni fydd cyfraniadau mewn nwyddau yn cael eu hystyried.<br><br>Os gwnaed cais am gyllid cyfatebol, ond na wnaed penderfyniad eto, nodwch y dyddiad y disgwyliwch benderfyniad. |

<table>
<tr><td></td><td>Efallai na fydd unrhyw gyllid cyfatebol gyda dyddiad penderfyniad sydd ymhellach i ffwrdd yn cael ei ystyried oherwydd bod hyn yn creu ansicrwydd a risg ynghylch cyflwyno’r prosiect.<br><br>Gwnewch yn siŵr y darperir copïau o unrhyw gyllid cyfatebol gafodd ei sicrhau. Dylai’r rhain gynnwys y swm, unrhyw derfyn amser, a disgrifiad o’r hyn y gellir gwario’r arian arno.<br><br>Hefyd, rhowch y symiau UKSPF a geisir.</td></tr>
<tr><td>Tab Proffil Gwariant</td><td>Nodwch rif ymyriad i’w neilltuo yn erbyn pob categori cost o’r ddewislen gwymp. Seilir y rhestr ar y wybodaeth sydd yn y tab ymyriad SPF.<br><br>Lle bo pennawd cost yn ymdrin â mwy nag un ymyriad, nodwch ymyriad blaenoriaeth neu neilltuo’r costau yn briodol, ac nid y gyfran berthnasol yn erbyn pob ymyriad.<br><br>Colofn A Dewiswch bennawd cost o’r ddewislen gwymp. Mae rhestr o’r penawdau cost i’r dde o’r daenlen (ar ôl colofn R).<br><br>Mae'r tabl isod yn rhoi eglurhad am y math o gostau a ddisgwylir yn erbyn pob categori.<br><br>
<table>
<tr><th>Pennawd Cost</th><th>Disgrifiad</th></tr>
<tr><td>Costau adeiladu - ffioedd contractwr</td><td>Ffioedd contractwr sy’n berthnasol i’r gwaith adeiladu ar eiddo.</td></tr>
<tr><td>Costau adeiladu - nwyddau</td><td>Costau nwyddau sy’n berthnasol i gwaith adeiladu ar eiddo.</td></tr>
<tr><td>Costau Ymgynghorwyr</td><td>Llafur arbenigol yn ymwneud â phrosiect.</td></tr>
<tr><td>Costau Gwerthuso</td><td>Costau allanol sy’n berthnasol i werthuso’r prosiect.</td></tr>
<tr><td>Offer, gosodiadau, ffitiadau</td><td>Asedau diriaethol a brynwyd ar gyfer y prosiect.</td></tr>
<tr><td>Grantiau i 3ydd barti a/neu buddiolwyr</td><td>Grant SPF y buddiolwyr a gefnogir gan y prosiect.</td></tr>
<tr><td>Ffioedd Cyfreithiol a phroffesiynol</td><td>Ffioedd Cyfreithiol a phroffesiynol sy’n berthnasol i’r prosiect.</td></tr>
<tr><td>Costau Marchnata a Chyhoeddusrwydd</td><td>Costau marchnata a chyhoeddusrwydd yn ymwneud â'r prosiect yn unol â chanllawiau cyhoeddusrwydd.</td></tr>
<tr><td>Gorbenion</td><td>Dylai gorbenion dalu eitemau fel costau llety, postio, ffonau, deunydd ysgrifennu ac ati.</td></tr>
<tr><td>Costau Cyflawni prosiect Staff</td><td>Staff sy’n cyflawni'r prosiect yn uniongyrchol.</td></tr>
<tr><td>Rheoli Prosiect a c Gweinyddu</td><td>Staff sy'n goruchwylio ac yn rheoli'r gwaith o gyflawni'r prosiect a phwy sy'n gweinyddu cymorth.</td></tr>
<tr><td>Costau cefnogi, e.e. Gwarchod plant, teithio a chynhaliaeth</td><td>Costau'n ymwneud â'r buddiolwyr sy'n cael eu cefnogi gan y prosiect.</td></tr>
</table>
</td></tr>
</table>

<table>
<tr>
<td></td>
<td>
<table>
<tr><td>Costau hyfforddiant</td><td>Hyfforddiant yn ymwneud â'r buddiolwyr yn cael eu cefnogi gan y prosiect.</td></tr>
<tr><td>Costau Gwirfoddolwyr</td><td>Taliad a wnaed i'r buddiolwyr yn cael eu cefnogi gan y prosiect mewn perthynas â gweithgareddau gwirfoddoli.</td></tr>
<tr><td>Arall</td><td>Nid yw'r costau a dynnwyd o fewn rhestr ragnodedig. Rhaid i'r manylion fod yn glir o fewn y disgrifiad cost yng Ngholofn B.</td></tr>
</table>
Dim ond gwariant sy'n cael ei ddatgan yma, fydd yn gymwys i gael ei hawlio.
Colofn B Rhowch ddisgrifiad manylach o’r gost.
Colofn C Rhowch gyfanswm y costau (UKSPF a chyfatebol) yn erbyn pob llinell wariant.
Colofn E Diofyn i 1 uned. Os ydych am nodi costau uned, nodwch nifer yr unedau sy’n ffurfio cyfanswm costau’r prosiect.
Colofn K Nodwch a yw eich costau yn cynnwys TAW anadferadwy.
Colofn G Rhowch swm y UKSPF am bob llinell wariant.
Colofn I Bydd y cyllid cyfatebol yn cael ei weithio allan yn awtomatig (Cyfanswm costau’r prosiect llai grant UKSPF)
Colofnau L, M ac N Rhowch gyfanswm gwariant y prosiect am gost pob blwyddyn ariannol.
Colofn O Bydd yn gweithio allan yn awtomatig a dylai gyfateb i’r cyfansymiau yng Ngholofn C
Colofn P Defnyddiwch hyn i esbonio unrhyw TAW anadferadwy y byddwch yn ei hawlio ac i roi manylion am unrhyw ragdybiaethau a wnaed am y costau.
</td>
</tr>
<tr>
<td>Tab Dadansoddiad Ariannol SPF</td>
<td>
Rhoddwyd dyraniad UKSPF ar wahân i bob awdurdod lleol yng ngogledd Cymru, wedi ei dorri i lawr yn ôl ymyriad, gwariant cyfalaf a refeniw dros gyfnod 3 blynedd y rhaglen.
Mae gofyn i geisiadau gan fwy nag un awdurdod lleol roi dadansoddiad o’r UKSPF y gofynnir amdano ym mhob sir lle bydd y prosiect yn gweithredu.
Mae gofyn i geisiadau gan fwy nag un awdurdod lleol ddyrannu unrhyw orbenion a chostau rheoli ar draws yr holl siroedd lle byddant yn cyflwyno gweithgareddau.
Er enghraifft, dylai sefydliad sy’n ymgeisydd wedi ei leoli 100% yng Ngwynedd ond a fydd yn cyflwyno 50% o’r gweithgaredd yng Nghonwy, 25% o’r gweithgaredd yng Ngwynedd, a 25% o’r gweithgaredd yn Sir Ddinbych ddyrannu eu gorbenion a’u costau rheoli ar yr un sail.
Rhowch ddadansoddiad o’r grant UKSPF y gofynnwch amdani yn erbyn y sir berthnasol. Am geisiadau gan fwy nag un awdurdod lleol, bydd angen i chi ddangos y gyfran yn erbyn pob ardal.
Dylai hyn gael ei dorri i lawr fel a ganlyn:
</td>
</tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | • Blaenoriaeth UKSPF - Bydd hyn yn poblogi'n awtomatig unwaith i chi ddewis yr ymyriad perthnasol<br>• Ymyriad<br>• Blaenoriaeth UKSPF<br>• Cyfalaf a refeniw UKSPF<br>• Blwyddyn ariannol |
| Tab Cynllun Caffael | Llenwch y tabl gan roi'r wybodaeth y gofynnir amdano am y gwahanol nwyddau, gwasanaethau neu waith a ddarperir dan y prosiect. |
| Tab Cofrestr Risg | Llenwch y daenlen gan nodi'r risgiau allweddol a'r camau sydd eu hangen i liniaru neu leihau'r risg.<br>Mae'r Matrics Risg ar waelod y dudalen yn dangos y sgoriau seiliedig ar debygolrwydd a difrifoldeb rhai digwyddiadau. Defnyddiwch y sgoriau hyn fel canllaw i'ch helpu i lenwi'r Gofrestr Risg.<br>Bydd angen diweddaru a dychwelyd hyn gyda phob cais yn cael ei gyflwyno. |

| **Atodiad C – Ffurflen Rheoli Cymorthdaliadau** |
|---|
| Mae gofyn i bob ymgeisydd ymchwilio a phennu a fydd derbyn cyllid UKSPF a gweithgareddau'r prosiect yn gyfystyr â chymhorthdal.<br>Os nodwyd cymhorthdal, ymatebwch i'r saith egwyddor er mwyn gweld a yw'r prosiect yn cydymffurfio â'r drefn o Reoli Cymorthdaliadau.<br>Mae'n hollbwysig fod ymgeiswyr yn cofnodi ac yn dogfennu eu penderfyniadau a'u hesboniadau. Dylid cadw pob tystiolaeth ategol i gyfiawnhau'r ymatebion. Mae hyn yn wir am gymorthdaliadau a'r hyn nad yw'n gymhorthdal gan y gellir herio'r penderfyniadau.<br>Mae mwy o wybodaeth i'w gael yn:<br>https://www.gov.uk/government/collections/subsidy-control-regime (Saesneg yn unig) |

## Sut i Gyflwyno'r Ffurflen Gais Cam 2 a gwybodaeth atodol

Rhaid cyflwyno ceisiadau prosiect manwl Cam 2 trwy ein porth ar-lein.
Bydd ymgeiswyr a wahoddir i gyflwyno cais prosiect manwl Cam 2 yn derbyn gwahoddiad e-bost gan dîm Cronfa Ffyniant Cyffredin: Gogledd Cymru a bydd yn cynnwys y ddolen i'r porth ar-lein a Chyfeirnod y Prosiect. Dim ond ceisiadau sy'n nodi Cyfeirnod Prosiect dilys ac a gyflwynir drwy'r porth ar-lein fydd yn cael eu hystyried.

Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno eu cais a'r holl ddogfennau atodol trwy'r porth. Cynghorir ymgeiswyr yn gryf i gwblhau Cam 2 – Ffurflen Gais, Atodiad A i C (fel y bo'n berthnasol) a chasglu'r holl ddogfennau atodol CYN dechrau'r broses gyflwyno ar-lein.

**Bydd y porth ar-lein yn annog ymgeiswyr i gyflwyno'r canlynol:**

- Ffurflen Gais Cam 2
- Atodiad A - Ffurflen Cefnogi Bid ar Cyd
- Atodiad B - Gwybodaeth y Prosiect
- Atodiad C – Ffurflen Rheoli Cymorthdaliadau
- Dogfennau llywodraethiant /cyfansoddiad i sefydliadau'r trydydd sector a gwirfoddol
- I bob ymgeisydd heb fod yn y sector cyhoeddus, copïau o gyfrifon am y 2 flynedd ariannol lawn fwyaf diweddar, gan gynnwys cyfrifon rheoli y flwyddyn gyfredol am yr ymgeisydd arweiniol. Datganiad banc diweddaraf (wedi ei ddyddio o fewn y 3 mis diwethaf)
- Tystiolaeth o unrhyw gyllid cyfatebol a sicrhawyd (os yn berthnasol)
- Swydd-ddisgrifiadau y staff y disgwylir eu penodi
- Siart sefydliad
- Prydles/caniatâd landlord
- Caniatâd cynllunio, ayb
- Caniatâd statudol
- Polisi Iaith Gymraeg
- Polisi Cydraddoldeb
- Asesiad Effaith Cydraddoldeb
- Tystysgrifau yswiriant